

## Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion y cyfarfod misol yng Nghanolfan Gymdeithasol Golan ar y **6ed o Chwefror 2025** am 7:00 yr hwyr.

1.	Presennol:	Richard Williams (Cadeirydd), John Jones, Enid Egginton, Clifford Williams (Garndolbenmaen), Raymond Jones (Pentrefelin) Megan Lloyd Williams, John Till (Golan) Edward Evans, Richard Parry (Bryncir), Iddon Edwards (Penmorfa) Gwilym Evans (Prenteg), Cynghorydd June Jones (Cynghorydd Cyngor Gwynedd)
2.	Ymddiheuriadau:	Huw Pritchard (Pentrefelin), Jess Williams, Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa)
3.	Ddim yn bresennol:	Stephen Churchman (Cynghorydd Cyngor Gwynedd).
4.	Datgan buddiant:	Gwilym Evans - Eitem 10 (Rhoddion Ariannol) Richard Williams - Eitem 10 (Rhoddion Ariannol) Iddon Edwards - Eitem 10 (Rhoddion Ariannol) Richard Parry - Eitem 10 (Rhoddion Ariannol) Raymond Jones - Eitem 10 (Rhoddion Ariannol) Megan Lloyd Williams - Eitem 10 (Rhoddion Ariannol) Enid Egginton - Eitem 10 (Rhoddion Ariannol)
5.	Cywirdeb y cyn-gofnodion	GE yn cynnig ac JJ yn eilio.
6.	Materion yn codi o'r cyn-gofnodion	<u>Arwydd "Stop" Pont y Traeth</u> Adroddodd GE bod ymateb wedi'i dderbyn gan yr Uned Draffig ac nad oedd ganddynt unrhyw ymateb pellach i'r mater yma ac i GE gysylltu gyda'r ORR (Office of Rail and Road). Dywedodd GE ei fod yn eithriadol siomedig hefo ymateb yr Uned Draffig.. Rhoddwyd y mater yma ymlaen i'r Cynghorydd June Jones a dywedodd nad oedd yn mynd i roi pwysau ar Gyngor Gwynedd i dynnu'r arwydd "Stop", lle all dynnu'r arwydd efallai achosi damwain.  Dywedodd GE ei fod wedi gwneud cyswllt gyda'r ORR ac maent wedi gofyn iddo anfon yr holl wybodaeth ymlaen.
7.	Mynwentydd	Penderfynwyd cynnal Is-bwyllgor Mynwentydd ym Mynwent Bethel, Golan ar brynhawn dydd Iau, 13eg o Chwefror am 16:45.
8.	Llwybrau Cyhoeddus	Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn ateb gan yr Uned Llwybrau parthed y canlynol:  <u>Llwybr Canolfan Gymdeithasol Golan</u> - Mae'r Uned Llwybrau wedi gwneud ychydig o waith i orchuddio'r twll oedd wedi dod i'r golwg ac wedi ail agor y llwybr dros dro. Mae'r Uned

		<p>Llwybrau yn dal i ddisgwyl pris i drwsio'r llwybr gan obeithio y bydd cyllid ychwanegol ar gael yn dilyn y stormydd diweddar.</p> <p><u>Hendre Cennin, Y Lôn Goed</u> - Roedd yr Uned Llwybrau wedi gofyn i contractwr wneud gwaith dadorchuddio peipen draenio yma. Mae'r Uned hefyd yn gobeithio mynd yn ôl i'r rhan yma er mwyn gwella arwyneb sydd eisoes wedi ei ddifrodi drwy erydiad dŵr.</p> <p><u>Llwybr Swyddfa Bost, Pentrefelin</u> - Maent wedi archwilio'r llwybr yma ac er bod y twll archwilio yn sefyll ychydig yn glir o'r arwyneb, maent o'r farn nad yw'n creu perygl eto. Maent am ail ymweld â'r llwybr yma yn fuan ac eto wedi i'r gwaith ar y capel sydd yn cael ei drosi cael ei orffen. Soniodd RJ bod preswlydd wedi rhoi gorau i ddefnyddio ei gar oherwydd cyflwr y llwybr yma a'i fod wedi gwneud cyswllt gyda Stephen Churchman ers tro am y mater yma. RJ i ddilyn y mater yma i fyny gyda SCH eto.</p> <p>Adroddodd y Clerc ei bod wedi gwneud cyswllt gyda'r contractwr Idris Jones i dorri canghennau ar lwybr Hendre Cennin ac iddo wneud cyswllt gyda RP i drafod y gwaith sydd angen ei wneud.</p>
9.	Adroddiad Pentrefi	<p><u>Golan</u> - Adroddodd MLW ei siomedigaeth nad oes gan BT linell Gymraeg i fusnesau, y rheswm a roddwyd gan BT yw nad oes galw amdano.</p> <p>Soniwyd am sefyllfa oedd wedi codi dros yr Wyl ble roedd eiddo gwyliau, Cae Eithin Tew heb roi gwastraff allan i'w gasglu ers cychwyn Rhagfyr ac felly roedd yna swmp o wastraff tu allan i'r eiddo ym mis Ionawr. Bu i Gyngor Gwynedd gasglu'r holl wastraff heb unrhyw drafferth.</p> <p><u>Pentrefelin</u> - Soniodd RJ fod y gwaith o dacluso'r ffordd o Bentrefelin i Benmorfa wedi cychwyn.</p> <p><u>Garndolbenmaen</u> - Dywedodd CW fod y biniau halen wedi cael eu llenwi.</p> <p>Llongyfarchiadau enfawr i Eisteddfod Garndolbenmaen ar dathlu 50 mlynedd ac am gynnal eisteddfod lwyddiannus arall.</p> <p>Soniodd EE am y Grŵp Hanes sydd yn cwrdd yn y Neuadd yng Ngarndolbenmaen ar nos Fawrth cyntaf bob mis rhwng 7yh a</p>

		<p>9yh ac wedyn taith cerdded ar ddydd Sadwrn cyntaf bob mis. Dywedodd bod yna groeso i bawb.</p> <p><u>Bryncir</u> - Dim i'w adrodd</p> <p><u>Penmorfa</u> - Adroddwyd fod gwter y lloches bws yn gollwng</p> <p><u>Prenteg</u> - Adroddwyd fod y golau ar y polyn uchaf yn y pentref heb fod ymlaen ers y storm ganol Rhagfyr. Dywedodd y Cynghorydd June Jones y byddai'n adrodd y mater yma i'r Uned Oleuo.</p> <p>Soniwyd fod brigau coed rhwng y ffordd a'r cae chwarae yn cuddio arwydd "Canolfan Prenteg" ar y gyffordd wrth fynd i mewn i'r pentref. Mi fydd hyn yn waeth pan fyddant yn deilio. Clerc i adrodd am hyn.</p> <p>Arwydd Pont y Traeth - dywedodd y Cynghorydd June Jones fod Cyngor Gwynedd wedi cytuno ac wedi dylunio arwydd i'w roi ar Bont y Traeth - "Pont y Traeth / Afon Glaslyn". Dywedodd y byddai yna gost o £374 i Gyngor Cymuned Dolbenmaen a Llanfrothen, felly £187 yr un. Penderfynwyd derbyn y cynnig a'r gost yma, pawb yn cydweld. Dywedodd June nad yw Llanfrothen yn cwrdd tan gychwyn fis Mawrth ac y bydd yn cyflwyno'r cynnig yma iddynt bryd hynny.</p> <p>Y Cynghorydd June Jones yn gadael y cyfarfod.</p>
10	Rhoddion Ariannol	<p>Penderfynwyd rhoi cyfraniad ariannol i'r mudiadau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfeillion Ysgol y Gorlan - £300.00</li> <li>• Neuadd Goffa Penmorfa - £300.00</li> <li>• Canolfan Prenteg - £300.00</li> <li>• Neuadd a Chae Chwarae Garndolbenmaen - £300.00</li> <li>• Clwb Merched Garndolbenmaen - £100.00 ***</li> <li>• Canolfan Gymdeithasol Golan - £300.00</li> <li>• Canolfan Pentrefelin - £300.00</li> <li>• Eisteddfod Garndolbenmaen - £300.00</li> <li>• Hosbis Dewi Sant - £300.00</li> <li>• Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Garndolbenmaen - £300.00</li> <li>• Apêl Sir Gaernarfon 2025 Y Sioe Frenhinol - £300.00</li> <li>• Clybiau Ffermwyr Ifanc Eryri - £300.00</li> </ul>

		<p>*** Gan nad oes cyfrif banc gan Glwb Merched Garndolbenmaen penderfynwyd rhoi siec o £100 i Ysgol Garndolbenmaen i dalu am y gost o logi ystafell yno. Roedd pawb yn gytûn wrth ddyrannu'r arian.</p>
11	Penodi Archwilydd Mewnol	Penderfynwyd penodi Hughes-Jones Dyson i fod yn archwilydd mewnol. Pawb yn gytûn.
12	Gohebiaeth	<p>a. Rhybudd Cau'r Ffordd o Gapel Horeb i'r Gogledd o Fynydd Glas, Garndolbenmaen - 28/01/25 - Gwaith Dŵr Cymru</p> <p>b. Caead argyfwng o'r ffordd ddi-ddosbarth ym Mhrenteg ger maes carafanau Plas Aberdunant - 22/01/24 - Adfer polion diffygiol ar ran Openreach. Soniwyd GE ei fod wedi ffonio Cyngor Gwynedd i holi yn mhle yn union oedd y ffordd wedi cau ac nad oedd gan y swyddog yn yr Adran Briffyrdd syniad. Teimla er nad gwaith gan Gyngor Gwynedd yw rhain y dylent allu dweud yn lle mae'r ffyrdd wedi cau. Clerc i roi'r adborth yma i'r Cyngor.</p> <p>c. Cynhadledd Economi Ymweld Gwynedd ac Eryri 2025</p> <p>ch. Fforwm Ieuenctid Gwynedd</p>
	Gohebiaeth Ychwanegol	<p>a. Unllais Cymru - Arolwg Aelod Gynghorau Unllais Cymru ac Ymgysylltu a Phwyllgorau Ardal - dyddiad cau 28/02/2025. Clerc i gwblhau.</p> <p>b. Unllais Cymru - Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Unllais Cymru - Cyfarfod Rhithiol 11/03/25 rhwng 4yh a 6yh.</p> <p>c. Cyfeillion Llŷn - Gofyn am gefnogaeth i warchod a chynyddu'r defnydd o Gymraeg o fewn ein cymunedau. Trafodwyd ac er bod y Cyngor yn gefnogol o'r egwyddor o warchod a chynyddu'r defnydd o Gymraeg o fewn ein cymunedau, penderfynwyd peidio derbyn y cynigion yma.</p> <p>ch. Uchelgais Gogledd Cymru - Ymgynghoriad Trafnidiaeth 14/04/25. I'w gynnwys ar agenda mis nesaf.</p> <p>d. Uchelgais Gogledd Cymru - Canllawiau Cyffredinol ar gyfer Ysgrifennu Bid. Rhannwyd.</p> <p>dd. Siân Gwenllian AS Arfon - Gofyn am gefnogaeth - Ysgol Ddeintyddiaeth i Fangor. Penderfynwyd cefnogi.</p>
13	Cynllunio	<p><u>Rhestrau:</u> 6/1, 13/1, 20/1, 27/1</p> <p><u>Ceisiadau Cynllunio:</u></p> <p><b>C24/1073/36/LL:</b> Tyddyn Ysguboriau, Lôn Tabor, Pentrefelin, LL52 OBA - Estyniad arfaethedig i adeilad amaethyddol presennol. Dim gwrthwynebiad.</p>

14	Materion Ariannol	<p><b>Ceisiadau am arian:</b></p> <p><b>Monitro'r Gyllideb:</b> Dim Gorwariant</p> <p><b>Biliau i'w talu:</b></p> <table> <tr> <td>Cyflog Clerc</td> <td>= £ 326.87</td> </tr> <tr> <td>Ffôn</td> <td>= £ 15.00</td> </tr> <tr> <td>Cyfrifiadur</td> <td>= £ 20.00</td> </tr> <tr> <td>HMRC</td> <td>= £81.60</td> </tr> <tr> <td>Veolia</td> <td>= £82.69</td> </tr> <tr> <td>HSBC</td> <td>= £8.00</td> </tr> <tr> <td>Idris Jones</td> <td>= £1,248</td> </tr> </table> <p><b>Derbyniadau:</b></p> <table> <tr> <td>Pritchard a Griffiths</td> <td>=£225.00</td> </tr> <tr> <td>Henry Jones Cyf</td> <td>=£335.00</td> </tr> </table> <p><b>Balansau Cyfrifon Banc:</b></p> <p><b>Cadw:</b> £39,855.93  <b>Cyfredol:</b> £1,520.48</p>	Cyflog Clerc	= £ 326.87	Ffôn	= £ 15.00	Cyfrifiadur	= £ 20.00	HMRC	= £81.60	Veolia	= £82.69	HSBC	= £8.00	Idris Jones	= £1,248	Pritchard a Griffiths	=£225.00	Henry Jones Cyf	=£335.00
Cyflog Clerc	= £ 326.87																			
Ffôn	= £ 15.00																			
Cyfrifiadur	= £ 20.00																			
HMRC	= £81.60																			
Veolia	= £82.69																			
HSBC	= £8.00																			
Idris Jones	= £1,248																			
Pritchard a Griffiths	=£225.00																			
Henry Jones Cyf	=£335.00																			
15	Gohebiaeth i'r Wasg / Wefan	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Llwybr Cyhoeddus Golan</li> <li>• Eisteddfod Garndolbenmaen</li> <li>• Rhoddion Ariannol</li> <li>• Ymgynghoriad Uchelgais Gogledd Cymru</li> <li>• Arwydd Pont y Traeth</li> <li>• Penodi Archwilydd Mewnol</li> </ul>																		